

Kirsty Williams, AC  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg  
Llywodraeth Cymru

26 Mehefin 2017

Annwyl Kirsty

### Ysgolion Bro

Trafododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei flaenraglen waith yn ddiweddar. Yn rhan o'r rhaglen waith honno, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch i ofyn am wybodaeth am y sefyllfa bresennol o ran ysgolion bro yng Nghymru.

Efallai eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi trafod y maes hwn â Phrif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wrth ystyried ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2015/16 ar 15 Chwefror 2017. Wedi hynny, darparodd Estyn [nodyn i'r Pwyllgor](#) ynglŷn â'r hyn sy'n gwneud ysgol fro dda.

Roedd y syniad o ddefnyddio ysgolion fel cyfleusterau cymunedol ehangach yn nodwedd arbennig o'r polisi yn ystod blynyddoedd cynnar y Cynulliad a datganoli. Yn 2001, nodwyd yn nogfen strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru) ['Y Wlad sy'n Dysgu'](#):

Rydym am weld perthynas agosach o lawer rhwng ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rydym am i ysgolion weithredu fel adnodd yn y gymuned – nid yn ystod oriau ysgol yn unig ond y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod y gwyliau hefyd. Fe'u gwelwn fel rhan annatod o adeiladu gallu cymunedol – gan ddarparu sylfaen ar gyfer cyflwyno nid yn unig addysg a hyfforddiant (gyda chysylltiadau â sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch), ond hefyd ystod o wasanaethau eraill fel cynhaliaeth deuluol a hybu iechyd a menter. Rydym am weld eu gwreiddiau yng nghyd-destun y gymuned eang; yn gallu ymfalchïo eu cyflawniadau, ac yn gallu sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod yn gyhoeddus.

Rhwng 2005 a 2011, rhoddodd Llywodraeth Cymru Grant Ysgolion Bro i awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddatblygu dulliau gweithredu a oedd yn canolbwyntio ar y gymuned yn eu hardaloedd. Cafodd y cyllid ei ymgorffori'n ddiweddarach mewn ffrydiau ariannu eraill, ehangach. Ein dealltwriaeth ni yw bod yr agwedd gyntaf, sef cymorth i brosiectau ar gyfer ysgolion / y gymuned, wedi'i throsglwyddo i mewn i'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, a gafodd ei gynnwys yn ei dro yn y Grant Gwella Addysg yn 2015-16. Rydym yn deall bod yr



ail agwedd, sy'n ymwneud â darpariaeth gofal plant, wedi ei dyrannu i gyllidebau Teuluoedd yn Gyntaf.


Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar i gael gwybodaeth am safbwynt Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ysgolion bro, manylion am bolisiau perthnasol a sut y mae unrhyw fentrau o'r fath yn cael eu cefnogi a'u cyllido. A allech chi hefyd egluro a yw Cylchlythyr 34/03: [Ysgolion Bro](#) (2003), sy'n rhoi cyngor i ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ynglŷn â sut y gallant ddatblygu gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag ysgolion bro, yn dal i fod yn berthnasol ac i ba raddau y caiff ei ddefnyddio? A yw Llywodraeth Cymru yn dal i arddel y diffiniad a ganlyn o ysgolion bro sydd i'w weld yng Nghylchlythyr 2003?

... ysgol sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu i ddiwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ynglŷn ag ysgolion bro a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd yn hyn o beth.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at John Griffiths, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**  
**Cadeirydd**

